

## I Mewn i'r Tempest ac Allan o'r Storm

Darlith Hedley Gibbard ar gyfer Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Eisteddfod Genedelathol Bro Morgannwg, 2012

Yn gyntaf, a gaf i ddiolch o galon i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru am fentro gofyn i fardd traddodi darlith Eisteddfod 2012, yn enwedig ar filltir sgwâr lolo Morgannwg. Fe ysgrifennais i ddoethuriaeth ar waith lolo fel un o ffugwyr llenyddol mwyaf athrylithgar y ddeunawfed ganrif ym Mhrydain. Yn fy marn i, ymdrech oedd ei waith i gyfieithu traddodiad y Beridd i'r Saesneg mewn dull creadigol. Doedd yr ymdrech ddim yn llwyddiant yn y ddeunawfed ganrif ond mae wedi rhoi man cyfarfod i ni heddiw, heb sôn am weledigaeth ddisglair o ddyfodol diwylliannol Cymraeg a Chymreig. 'Ta waeth am hynny. Rwy'n gobeithio y gwnewch chi faddau i fi am eich atgoffa o'r ymadrodd *traduttore/ traditor* ("cyfieithydd/ fradwr") oherwydd fy mod i am ddadlau bod cyfieithu yn weithgaredd hollol ganolog i waith bardd. Os ydych chi'n *traduttori*, mi rydw i'n waeth na chi! Hyd yn oed cyn i chi ddechrau delio gyda'r cwestiwn o weithio rhwng ieithoedd, fe allech chi ddiffinio cyfansoddi barddoniaeth fel y weithred o gyfieithu heb bod testun gwreiddiol yn bod, dim ond profiad corfforol yr unigolyn. Yn ffodus i'r bardd, mae ei chydweithwyr mewn traddodiad yn gwmni ar y daith. O wybod pa mor allweddol oedd gwaith Hedley Gibbard i'r gymuned o gyfieithwyr yng Nghymru, rwy'n ddiolchgar iawn cael y cyfle i dreulio amser yn meddwl am sut y mae gwaith y ddwy alwedigaeth yn debyg.

Ddim yn aml rwy'n falch derbyn negeseuon ar fy ffôn ar y lôn ond pan ddaeth testun oddi wrth Arwel Gruffydd, Cyfarwyddwr Artistig y Theatr Genedlaethol yn gofyn a fyddai diddordeb gen i mewn cyfieithu drama Shakespeare *The Tempest* i'r Gymraeg fe deimles bod degawdau o'm mywyd wedi syrthio i'w lle o'r diwedd. Er fy mod i wedi bod yn ysgrifennu barddoniaeth yn Gymraeg ers fy mod i'n saith mlwydd oed, Saesneg astudiais i yn y coleg. *Macbeth*, y ddrama Albanaidd, oedd testun gosod Lefel O ein blwyddyn ni. Fe ddes i ar draws tâp casét o'r ddrama, ac fe fydden i'n arfer gwrando ar y cynhyrchiad ar un o'r chwaraewyr Sony cynnar cyn mynd i gysgu. Fe fydden i'n dihuno yng nghanol y nos, wedi dechrau ar olygfa'r gwraichod "Aroint

thee, witch! the rump-fed ronyon cries!” dim ond i ddihuno gyda “Is this a dagger which I see before me, / The handle toward my hand?” Dyna oedd dechrau’r drwg, mae’n siwr, fe aeth rhythm dramatig Shakespeare i’r isymwybod ac roedd hi wedi canu arna i. Fel rhan o’r cwrs gradd nid yn unig oedd yn rhaid i ni wneud papur am Drasiedi ond roedd arholiad arbennig am waith Shakespeare. Does dim rhyfedd bod ugain mlynedd wedi mynd heibio cyn i mi fedru stumogi meddwl am Shakespeare eto. Gyda’r gwahoddiad cyffrous oddi wrth Arwel, dyma gyfle i ddefnyddio’r holl astudio o’r diwedd!

Perfformiwyd *The Tempest* gyntaf yn 1611 a’r farn gyffredinol yw mai drama olaf Shakespeare yw hi, cyn iddo ymddeol i Stratford yn bumdeg dau mlwydd oed. Roedd Shakespeare wedi penderfynu mynd cyn iddo ysgrifennu’r *Tempest*, felly mae’r ddrama ei hun yn grynodeb o brif themáu ei waith ac yn rhyw fath o gasgliad “Greatest Hits.” Mae’r ddrama yn gofyn cwestiynnau am natur iaith a beth yw bod yn was ac yn gaethwas i berson arall. Y cwestiwn mwyaf i’r awdur yw cysidro moesoldeb ei alwedigaeth fel bardd. Gellir darllen geiriau Prospero, y dewin sy’n rhoi’r gorau i’w gyfrinachau, fel myfyrdod ar bechodau’r artist fel consuriwr. Mae Shakespeare yn gofyn i’w hunan nid yn unig beth yw gwerth barddoniaeth, ond a oes math o lesmair artistig sy’n ddrygionus ac os yw’r awdur yn euog o gamddefnyddio pobl oherwydd ei alluoedd hudolus. Mae Shakespeare fel pe bai wedi rhannu ffigur yr artist yn dri chymeriad, Prospero, bod dynol, Ariel, sy’n ysbryd, a Caliban, sy’n frodor priddlyd. Ond, mae’r tri ohonyn nhw’n siarad barddoniaeth godidog ond gwahanol i’w gilydd.

A dyma lle hoffwn i gyflwyno’r actorion yma o gynhyrchiad y Theatr Genedlaethol o’r *Storm*. Rwy’n ddiolchgar iawn iddyn nhw am fod mor hael gyda’u hamser rhydd mewn wythnos brysur ac yn enwedig i Elen Bowman, cyfarwyddyd y cynhyrchiad am eu rhyddhau o gylch dirgel ei phabell. Dyma Llion Williams (Prospero), Meilir Rhys Williams (Ariel), Kai Owen (Caliban) a Fferdinand (Gwydion Rhys). Rwy am ofyn i Llion a Meilyr chwarae darn o Act I Golygfa 2, lle mae’r dewin yn dangos mai grym pur sy’n cadw Ariel, darn puraf ei ddawn, o dan ei reolaeth.

ARIEL

Henffych well, fy meistr! Henffych, syr. Rwy'n dod  
l'th wasanaethu; i hedfan, nofio, plymio'r  
Tân, marchogaeth y cymylau gwisgi,  
Mynna orchymyn Ariel a'i lu  
Gyflawni dy dasg.

PROSPERO

Ysbryd, a berfformiaist  
Y storm yn fanwl gywir fel y dwedais?

ARIEL

Do, yn union.  
Byrddais long y brenin, nawr yn y blaen,  
Nawr yn y wasg, y dec, ac ym mhob caban,  
Fflamiais ryfeddod: ar brydiau ymwahanais,  
A llosgi mewn llawer man; ar ben y mast,  
Ar freichiau'r trawslath, yn y bolsbryd  
Ymwahanaf, yna fflamio 'nghyd.  
Ac nid oedd mell t lau, sy'n rhedwyr ar y blaen  
I glap ofnadwy ei daranau'n ddigon chwim  
I dwyllo'r llygad; roedd hi fel petai  
Neifion nerthol yn ymosod ar  
Ei ru swlffwraidd ac yn peri'w donnau  
Eofn grynu, ie'n siglo'i bicell driphen.

PROSPERO

Fy ysbryd dewr!  
Pwy oedd mor driw, mor ffyddlon na siglodd y stŵr  
Mo'i reswm?

ARIEL

Nid oedd un enaid glân  
Na theimlodd dwymyn y gwallgof  
Afreswm. Plymiodd pawb, ar wahân i'r morwyr,  
I ferw'r môr, gadael y llong a roddais  
Ar dân â mi fy hun a mab y Brenin,  
Fferdinand, a'i wallt fel brwyn, oedd y cyntaf  
I neidio i fyny gan ddatgan: 'Mae uffern yn wag,  
A'r diafoliaid yma!'

PROSPERO

'Da fy ysbryd!  
Oedd hyn ger y lan?

ARIEL

Yn agos, Feistr,

PROSPERO

Ac ydyn nhw'n ddiogel?

ARIEL

Ydyn, pob copa walltog;  
Heb frycheuyn a'r dillad a'u cynhalient  
Yn lanach nag o'r blaen; fel y gorchmynnaist.  
Gwasgarais nhw yn griwiau dros yr ynys.  
Glaniais fab y Brenin ar ei ben ei hun;  
A'i adael yn ochneidio ar yr awel  
Mewn cornel od o'r ynys ac yn eistedd  
Â'i freichiau'n gwllwm trist, fel hyn.

PROSPERO

A llong

Y Brenin? A'r morwyr? Beth wnest ti wedyn  
Gyda gweddill y llynges?

ARIEL

Mewn harbwr clyd

Mae llong y Brenin; yn yr hafan ddofn  
Lle galwaist fi un canol nos i 'mofyn  
Gwlith o'r Bermudas stormus o hyd; mae'n gudd  
Fan yna, ac fe swynais i y morwyr  
Wedi'u llafur i gysgu'n drwm dan ddec.  
Ac am y llongau a wasgerais, daethant  
At ei gilydd eto ac, yn fintai drist  
Ar Fôr y Canoldir, maent wedi troi yn ôl  
Tuag adre, oll yn tybio iddynt weld  
Ddryllio llong y Brenin a'i Fawrhydi'n  
Trenge.

PROSPERO

Ariel, fe gyflawnaist ti  
Fy siars yn ôl y gofyn: ond mae mwy  
O waith. Pa awr yw hi?

ARIEL

Mae wedi canol

Dydd.

PROSPERO

O leiaf dau. Rhwng nawr a chwech  
Rhaid i ni dreulio'r amser yn broffidiol.

ARIEL

Oes mwy o waith? Os wyt ti'n fy llwytho  
Rwy'n dy atgoffa dithau o'th addewid  
I mi na chedwaist eto.

PROSPERO

Beth? Ti'n pwdu?

Pa hawl sydd gennyt ti?

ARIEL

Fy rhyddid i.

PROSPERO

Cyn gorffen d'amser? Digon!

ARIEL

Rwy'n erfyn,

Cofia i mi'th wasanaethu'n deilwng  
Heb ddweud dim celwydd, na chyflawni gwallau,  
Heb ddrwgdeimlad a heb gwyno dim:  
Addewaist ti fy ngollwng ar ôl blwyddyn.

PROSPERO

Anghofiaist ti beth oedd dy artaith  
Cyn i mi dy ryddhau di?

ARIEL

Naddo.

PROSPERO

Mi wnest! Mae'n ormod i ti droedio llaid  
Y dyfnderoedd hallt, rhedeg ar awel fain  
Y gogledd, cyflawni tasgau yng ngwythiennau'r  
Ddaear wedi'u crasu'n rew.

ARIEL

Syr, naddo fi.

PROSPERO

Celwyddgi! Greadur afiach! A anghofiaist ti  
Am Sycorax y wrach wenwynig, aeth yn grwm  
Dan oedran a chenfigen? Anghofiaist ti hi?

ARIEL

Naddo.

PROSPERO

Do. Ble ganed hi? Dwêd!

ARIEL

Syr, yn Alger.

PROSPERO

O, felly'n wir? A oes

Yn rhaid i mi ailadrodd it bob mis  
Beth oeddet ti, rhag ofn i ti anghofio?  
Alltudiwyd Sycotax y wrach ddamniedig  
Am ddrwgweithredoedd lu a hudoliaethau  
Sy'n rhy enbyd byth i haeddu'u clywed,  
Fel y gwyddi'n iawn, o Alger: gwnaeth  
Un peth na fynnent ladd. Ai gwir yw hyn?

ARIEL

Syr, mae'n wir.

PROSPERO

Dygwyd y wrach a oedd yn disgwyl plentyn  
A'i gadael yma. Ti, fy nghaethwas –  
Fel soniaist ti – bryd hynny oedd ei gwas;  
A, chan dy fod ti'n un rhy ddelicét dy ysbryd  
I dderbyn ei gorchmynion priddlyd, atgas hi,  
Gwrthodaist ei gofynion a chyfyngodd di,  
Trwy gymorth ei gweiniaid cryfach, yn ei llid  
Na ellid ei liniaru, i ganghennau pîn  
A holltwyd; yn yr agen hon carcharwyd  
Di yn boenus, yna buost ti  
Am ddwsin o flynyddoedd; bu farw hi  
A'th adael yno. Ar wahân i'r mab  
A fwrdd yma – cenau brych o groth  
Y wrach – ni chafodd yr ynys fraint  
Ffurf dynol.

ARIEL

Ie, Caliban ei mab.

PROSPERO

Un twp ydi o, y Caliban sy'n was  
I mi. Ti wyddost yn well na neb mor llosg  
Dy artaith pan ddeuthum a'th ddarganfod di;  
Pera i dy riddfan i fleiddiaid udo; treiddiai  
I galon eirth cynddeiriog. Gwewyr oedd  
I'r damniedig ac ni fedrai Sycorax  
Ei ddatod wedyn: pan gyrhaeddais i

A'th glywed di, fy nysg a barodd agor  
Y binwydden a'th ryddhau.

ARIEL

Diolch, meistr.

PROSPERO

Ac os clywaf fwy o gwyno, fe  
Agoraf dderwen ac fe hoeliaf di  
I'w hymysgaroedd cnotiog a thi gei  
Sgrechian am ddeg gaeaf.

ARIEL

Pardwn, meistr:

Rwy'n addo ufuddhau gorchmynion, bod  
Yn ysbryd addfwyn.

PROSPERO

Gwna di ac ymhen deuddydd  
Byddi'n rhydd.

ARIEL

Dyna fy meistr hael!  
Beth wnaif i? Dywed beth y mynni! Beth?

Diolch yn fawr. Wrth baratoi i gyfieithu'r ddrama, fe aeth Arwel Gruffyd, Elen Bowman a fi trwy broses diddorol dros ben. Oherwydd gofynion cyhoeddusrwydd, roedd angen penderfynu'n go gyflym beth oedd teitl *The Tempest* yn mynd i fod yn Gymraeg. Pan gyfieithodd Gwyn Thomas y ddrama yn 1996, *Y Dymestl* oedd ei ddewis ef. Mae'r gair yn hannu o'r gwreiddyn Lladin, *tempus*, amser. Dyma'r unig ddrama gan Shakespeare sy'n parchu'r Unedau Aristotelaidd – hynny yw, mae'n digwydd mewn amser go iawn o flaen y gynulleidfa. Yng nghyfnod Shakespeare, roedd y gair hefyd yn golygu, yn ôl Geiriadur Rhydychen: "A violent commotion or disturbance; a tumult, rush; agitation, perturbation." Ond ar Ragolygon y Tywydd heddiw, storm sy'n dod tuag atom ni o bwysau isel yn y gorllewin, nid timestl. Felly, beth am *Y Storm*? Mae gwreiddyn y gair "storm" yn y Teutoneg – yn ôl Geiriadur Rhydychen eto ac mae'n golygu "A violent disturbance of the atmosphere" ond o 1602, naw mlynedd cyn perfformio'r ddrama, dyma ystyr newydd yn ymddangos: "A tumultuous rush of sound, a vehement utterance of words – a violent outburst... a

passionate manifestation of feeling.” Yn union yr un amser ag oedd Shakespeare yn ei anterth fel dramodydd, roedd y gair “storm” wedi hyrddio’i hun i eirfa’r bardd am y weithred o siarad. Byddai’n hollol addas yn hanesyddol, felly, defnyddio’r gair mwy uniongyrchol am ddrycin. Yna daeth un darn o wybodaeth allweddol i law.

Gofynnodd Arwel ac Elen i grwp o bobl ifanc beth oedd ystyr *Y Dymestl*. Wydden nhw ddim. Nawr fe allech chi ddadlau fod hynny’n hyd yn oed fwy o reswm i ddefnyddio’r gair hynafol, ond yn fy marn i byddai Shakespeare, gwr y theatr, wedi mynd am y teitl fyddai’n denu’r gynulleidfa fwyaf i’r *Globe*. *Y Storm* amdani, felly.

Ond, wele broblem arall yn syth. Fe gyfieithais i ddechrau’r ddrama er mwyn rhoi defnydd trafod i ni. Yn ail olygfa’r act gyntaf, mae Prospero’n addysgu ei ferch Miranda am ei chefnidir. Alltudiwyd Prospero, Dug Milano, i ynys gan ei frawd. Yno defnyddiodd ei ddawn i hudo’i elynion i’r ynys a hanes ei ddial arnyn hw yw plot y ddrama. Cyn iddo fedru dweud y gwir am ei chefnidir wrth Miranda, siarad fel bod dynol, mae Prospero’n diosg ei glogyn hud. Dyma’r geiriau’n Saesneg:

‘Tis time

I should inform thee further. Lend thy hand  
And pluck my magic garment from me. So,  
Lie there my art.

Nawr. Mewn drama sydd yn fyfyrddod ar rith barddoniaeth a’r theatr, mae’r gair “my art” yn allweddol. Fe ddechreues i gyda “Aros fan yna, fy hud” ond wedi edrych ar hanes y gair “art” yn fy Meibl ar achlysur fel hwn, *The Oxford English Dictionary*, dyna ail-feddwl. Daw’r gair o’r Hen Ffrangeg a Lladin yn golygu “to fit” felly, yn y cyd-destun hwn, mae’n golygu crefft. Un o’r pethau rwy’n ei drysori fwyaf am y traddodiad Cymraeg yw’r bri sydd ar grefft a’i le mewn cynganeddu a chelf yn gyffredinol. Felly dyma drïo “Gorwedd yno, fy nghrefft.” Ond dyw hyn ddim yn gwneud cyfiawder â’r gwreiddiol. Yn *Romeo a Juliet*, roedd Shakespeare wedi chwarae gyda’r gair “art” fel berf:

Now thou art what thou art



By Art as well as nature.

Roedd Shakespeare hefyd wedi defnyddio'r gair gydag awgrym o bwerau goruwchnaturiol. Mae Macbeth yn gofyn i un o'r gwyrachod i broffwydo'r dyfodol drwy ei hud – "if by thy Art" ac yn y blaen. Yn *The Tempest* mae Prospero'n cyfaddef ei fod wedi astudio hud a lledrith ac mae ei benderfyniad i daflu ei lyfr swynion i'r môr ar ddiwedd y ddrama yn ymdrech i adael y gwyddorau sinistr a arferwyd gan bobl fel y Cymro ac alcemegydd John Dee yn Oes Elizabeth. Fe allen i fod wedi defnyddio'r gair "fy nghelfyddyd" ond roedd tri sillaf yn rhy hir. Beth am "Fy nghelf?" Erbyn heddiw mae'r gair yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â chelf weledol felly byddai'n gamarweiniol i gynulleidfa gyfoes. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, roedd "the arts" yn cyfeirio at ddisgyblaeth gramadeg, rhesymeg a dilechdid ("dialectics"), addysg mewn math arbennig o wybodaeth a oedd yn rhoi grym cymdeithasol ac esoterig iddo. Felly dyma gyfieithu'r llinellau fel hyn:

Mae'n bryd

I ti gael gwybod mwy. Rhoi law i mi

Ddiosg fy ngwisg. Gorwedd di yno, fy nysg.

Y rheswm rwy wedi gwario tipyn o amser yn disgrifio'r broses o benderfynu am yr un gair yma yw fod gan syniad Shakespeare o swyddogaeth y bardd/ dramodydd gysylltiad agos â'r syniad o gyfieithu. Yn 1611, yr un flwyddyn â pherfformiad cyntaf *The Tempest*, cyhoeddwyd Beibl y Brenin Iago, digwyddiad crefyddol a diwylliannol pwysicaf yr oes. Mewn rhagair, datganodd y cyfieithydd

Translation it is that openeth the window, to let in  
the light: that breaketh the shell , that we eat the  
kernel.

Nid gweithred lefn, hawdd mo'r cyfieithu yma, ond rhywbeth sy'n agor drws rhwng dau fyd gwahanol – y tu fewn a'r tu allan neu nefoedd a daear – ac, ymhellach, yn rhwygo, hollti, dinistrio'r gwreiddiol er mwyn porthi'r gwrandawr. Diwylliant llafar,

gan fwyaf, oedd Oes Shakespeare, gyda llyfrau'n fraint i'r ychydig. Nid oedd gan Shakespeare lyfrgell gyhoeddus lle medrai fynd i ddarllen – roedd yn dibynnu ar ffafr gwerthwyr llyfrau. Byddai cynulleidfaoedd yn dweud eu bod yn mynd i glywed drama, yn hytrach na'i gweld, yn ôl ein chwedl ni heddiw.

Y cwestiwn mwyaf sylfaenol y gallen i ofyn i'n hunan wrth baratoi i wneud y gwaith oedd: "Pa agwedd yn union o waith Shakespeare ydw i am ei chyfieithu?" Oeddwn i'n mynd i gyfieithu teimlad hynafol y testun a'i droi yn Gymraeg Oes Iago? Na, i fi, rhyw fath o barodi neu ffugiad fyddai hyn. Beth am syniadau Shakespeare? Rown i'n benderfynol fy mod i am ddangos cymhlethdod meddwl y bardd yn anterth ei athrylith, ond a oeddwn i am ddefnyddio mesurau Cymraeg i wneud hyn? Un o'r rhesymau pam fo gwaith Shakespeare wedi parhau gyhyd yw ei fod yn medru ymgorffori'r broses o feddwl yn symudiad ei linellau. Yn hytrach na dynwared "ystyr" y *Tempest*, fe benderfynais geisio cyfieithu'r ystum pob cymeriad yn eu llinellau. Dyma, wedi'r cyfan, hanfod drama. Fel rhan o'r ymchwil i baratoi cyfieithu, fe wyliais bob ffilm gallen i o'r *Tempest*, gan gynnwys cynhyrchiad Julia Traynor gyda Helen Mirren yn chwarae Prospero fel mam. Fel rhan o'i sylwebaeth ar y ffilm, mae Traynor yn nodi bod Shakespeare yn cyfarwyddo'i ddrama ei hun trwy symudiad y llinellau. Yn fy addasiad i, doeddwn i ddim am ddisodli Shakespeare fel cyfarwyddwr y ddrama – gwn pwy sy'n rhagori fel bardd!

Rhoddai hyn ryddid i mi addasu'r Saesneg i draddodiad barddol hollol wahanol. Ond – Caliban mewn englynion? Miranda yn llefaru hir-a-thoddaid? Go brin. O'r cychwyn cyntaf, rown i'n benderfynol cadw rhythm mawr Shakespeare, yr *iambic pentameter*. Cyfansoddodd y rhanfwyaf o'i ddramâu mewn unedau mydryddol yr iamb, sef ti-tum neu, yn weledol ~ / "Fe af." Mae'r mesur yma'n gynhenid i'r Saesneg – mae yna dudalennau o nofelau Dickens sy'n syrthio'n naturiol iawn i'r patrwm. Yn y *Tempest*, wele enghraifft berffaith reolaidd yn y linell "It sounds no more, and sure it waits upon" ac yn y blaen. Gellir amrywio'r patrwm ar ddechrau'r linell neu ar ôl y caesura, sef y toriad ar ganol y linell – noder iaith rhwygo neu dorri eto. Yn Saesneg, felly, cyfrif yr acenion. Yn Gymraeg, cyfrif sillafau mae'r mesurau traddodiadol. Hm. Ond dyma'r broblem go iawn. Oherwydd fod yr acen yn dod ar y sillaf diwethaf ond un

mewn geiriau Cymraeg, mae'r rhanfwyaf o frawddegau yn syrthio i batrwm sy'n hollol i wrthwyneb y Saesneg, sef y trochee, *tum-ti* neu / ˘ "frodyr". Hyd yn oed yn waeth na hynny, mae'r Gymraeg yn dueddol (a sylwch sut mae fy ngeiriau i nawr wedi syrthio i'r patrwm hwn – *mae'r Gymraeg yn dueddol* – o ychwanegu tuthiad bach arall, fel rhywun yn rhedeg cyn gwneud y naid uchel, felly mae'r rhythm yn troi'n ddactylig, sef *dum-di-di* neu / ˘ ˘ . Neu, yn ôl yr uned pa uned fydryddol sy'n gychwyn y mesur, *di-di-dum* neu ˘ ˘ \ , neu'r anapaest. Rown i'n gwybod bod modd atgynhyrchu tinc yr iambic pentemeter yn y Gymraeg oherwydd fy mod i'n cofio clywed cyfieithiad Gwyn Thomas o *Hamlet*. Mae'r arwr yn gofyn y cwestiwn enwog "To be, or not to be. That is the question." Os sylwch chi, mae'r mesur yn cael ei droi ar ei ben ar ôl y canol, "That is the question." Mae Gwyn Thomas yn ateb: "Ai bod, ai peidio bod. Dyna yw'r cwestiwn." Perffaith!

Fe hoffen i ofyn i Meilyr Rhys Williams a Gwydion Rhys i ddangos i ni beth mae hyn yn ei olygu yn un o ddarnau enwocaf y *Tempest*. Fe ddylen i nodi fod Shakespeare yn defnyddio mwy o linellau afreolaidd yn y *Tempest* nag mewn unrhyw un arall o'i ddramáu. Mae tua ugain y cant o'r llinellau'n ymestyn i chwe churiad. Dyma yw nodwedd virtuoso ar ddiwedd gyrfa – meddyliwch am bedwarawdau llinynol diweddar Beethoven neu operáu olaf Verdi. Mae'r amrywiadau eithafol yma yn dangos artist yn ymestyn y linell farddonol i'r eithaf cyn iddi dorri neu rwygo – ac yn dechrua gwneud gwaith rhywbeth fel y cyfieithydd: "to let in the light," "to break the shell that we eat the kernel."

Yn yr olygfa hon, mae Fferdinand, mab Brenin Napoli, wedi ei longdryllio ar ynys ryfedd iawn. Mae Ariel wedi cael gorchymyn i'w arwain at Prospero ac Ariel. Dyma'r Saesneg:

FERDINAND

Where should this music be? I'th'air, or th'earth?

It sounds no more, and sure it waits upon

Some god o'th'island. Sitting on a bank,

Weeping again the King my father's wreck,

This music crept by me upon the waters,  
Allaying both their fury and my passion  
With its sweet air. Thence I have followed it  
(Or it hath drawn me, rather) but 'tis gone.  
No, it begins again.

ARIEL (*sings*)

Full fathom five thy father lies,  
Of his bones are coral made;  
Those are pearls that were his eyes,  
Nothing of him that doth fade  
But doth suffer a sea-change  
Into something rich and strange.  
Sea nymphs hourly ring his knell.

Y peth cyntaf i sylwi am y darn hwn yw fod Ferdinand yn siarad mewn llinell pum curiad fwy neu lai yn reolaidd. [Gwyneth yn curo allan y llinellau.]

Where should this music be? l'th'air, or th'earth?  
It sounds no more, and sure it waits upon  
Some god o'th'island. Sitting on a bank,  
Weeping again the King my father's wreck,  
This music crept by me upon the waters,  
Allaying both their fury and my passion  
With its sweet air. Thence I have followed it  
(Or it hath drawn me, rather) but 'tis gone.  
No, it begins again.

A dyma'r darn yn Gymraeg:

FFERDINAND

O ble daw'r gerddoriaeth hon? O'r aer? O'r pridd?

Mae'n teui. Rwy'n siŵr ei fod yn rhan o osgordd  
Duw o'r ynys. Tra'n eistedd ar ryw lethr  
Yn wylo eto am longdrylliad y Brenin,  
Fy nhad, treiglodd gerddoriaeth heibiof ar y  
Dyfroedd, gan leddfu eu llid a'm galar i  
Gyda'i alaw hyfryd. Oddi yno  
Dilynais hon (neu'n hytrach, denodd fi)  
Ond tawodd. Na, mae'n cychwyn eto.

ARIEL (*canu*)

Yn y dyfnder mae dy dad  
Cwrel yw ei esgyrn o  
Dyna berl lle bu ei lygad,  
Mae pob elfen sydd yn gwywo  
Yn trawsnewid fel y môr  
Nid trengi ond troi'n drysor  
Canu cnul mae môrforynion:

*Cytgan:* Ding-dong.

Maen nhw'n canu, wyt ti'n clywed? Ding-dong!

Diolch. Yn araith Fferdinand, mae'n ddiddorol sylwi bod y linell gyntaf yn Saesneg, sydd yn afreolaidd - "Where should this music be? I'th'air, or th'earth?" yn mynd yn naturiol afreolaidd mewn modd cyfatebol yn y Gymraeg, ar wahan i'r sillafau cyntaf: "O ble daw'r gerddoriaeth hon? O'r aer? O'r pridd?" Mae pawb yn gyfarwydd â meddwl am weithredoedd cymeriadau fel plot drama. Ond i fardd, mydr y llinellau yw tarddiad y camweddau a chastiau sy'n diffinio cymeriad. Y mydr YW'r plot. Fe allwch chi weld hynny yn y darn hwn, lle mae Fferdinand, sydd newydd fod yn y môr ac yn meddwl iddo golli popeth, gan gynnwys ei dad, yn siarad yn gythryblus i ddechrau. Ond, yn raddol, mae cerddoriaeth Ariel yn tawelu ei nerfau ac wrth ddisgrifio'r alaw, mae Fferdinand yn syrthio'n naturiol i'r iambic pentameter yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Mae cân Ariel, "Full fathom five" ymhlith geiriau enwocaf Shakespeare. Y peth cyntaf i sylwi am y geiriau yw bod y geiriau sy'n disgrifio rhywbeth i wneud â'r rhif pump yn digwydd mewn llinell o bedair sill. Mae'r gair "fathom" yn weddol gyfarwydd yn Saesneg o hyd, er nad yw morwyr yn defnyddio technoleg y linell a'r blymen rhagor – mae gennyn ni depth-finders trydaonol, technoleg seinblymio. Er fy mod i'n hwylio,

roedd yn rhaid i fi edrych yng Ngeiriadur Bruce am “fathom” yn Gymraeg: gwrhyd, gair hollol anghyfarwydd i fi. Gan mai dyma un o eiliadau mwyaf emosiynol y ddrama, gydag Ariel yn cynnig gweledigaeth hudolus o drychineb boddi tad (er, wrth gwrs, rhith oedd hynny mewn gwirionedd), fe benderfynais i gadw’r iaith mor syml â phosibl a rhoi “Yn y dyfnder mae dy dad.” Ddim yn hollol gywir ond mae’n cyfateb i’r math o ledrith mae Shakespeare yn ei ddefnyddio yn y gwreiddol.

Cyn i fi symud ymlaen, mae un peth arall gen i ddweud am y syniad o’r mydr fel plot sylfaenol y ddrama. Pe na bawn i wedi cyfieithu’r *Tempest*, fyddwn i byth wedi sylwi ar y modd y mae Shakespeare yn defnyddio mydr hefyd fel llinyn mesur moesol.

Cymeriad tywyllaf y ddrama i mi yw Antonio, brawd Prospero. Alltudiodd ef Prospero a Miranda a dwyn y ddugaeth. Yna, mae’n ceisio annog Sebastian i lofruddio ei frawd yntau, Dug Milano. Er bod Prospero yn ei faddau am ei gamweddau, mae Antonio’n dweud dim. Mae ei ddistawrwydd yn awgrymu nad yw’n derbyn maddeuant a does dim rheswm meddwl ei fod yn edifar. Mae iaith Antonio wrth iddo geisio perswadio Sebastian i ddwyn coron ei frawd yn gymhleth iawn, gan ei fod am wthio’i farn ar Sebastian heb ddweud yn blaen beth sydd ar ei feddwl. Mae’r olygfa hon yn cynnig temptasiwn i’r cyfieithydd hefyd i dacluso’r ystyr ond byddai hyn yn cymylu pwynt Shakespeare bod y drwg yn byw mewn cystrawen gor-gywrain, mydryddol afreolaidd ac – fe ddylai hyn wneud synnwyr ichi – anodd iawn ei gyfieithu. Er enghraifft, wele’r geiriau:

ANTONIO

Pwy, felly, yw etifedd Napoli?

SEBASTIAN

Claribel.

ANTONIO

Brenhines Tiwnis; hi

Sy’n byw pellterau’n hwy nag oes un dyn;

Tu hwnt i lythyrau, oni bydd yr haul

Yn bostmon iddi – mae hen ŵr y lloer

Mor araf bydd angen eillio boch babanod –

Cyn iddo gyrraedd. Wrth deithio oddi wrth hon

Môr-lyncwyd ni, ond achubwyd rhai, eu ffawd

I berfformio'r act y bu'r hyn ddigwyddodd gynt  
Yn gyflwyniad iddi; beth ddaw sydd lan i ti  
A fi i'w gyflawni.

SEBASTIAN

Pa rwtsh yw hyn? Sut ddwedaist ti?  
Mae'n wir, Brenhines Tiwnis yw fy nith;  
A hi yw etifedd Napoli; ond rhwng y ddwy  
Y mae cryn bellter.

ANTONIO

Pellter y mae pob cyfudd  
Ohono'n galw, 'Sut fedr Claribel  
Ein dilyn yn ôl i Napoli? Aros yn Nhiwnis,  
Boed deffro Sebastian.' Tybia mai tranc  
A'i cipodd; ni fyddent ronyn gwaeth na nawr.  
Mae un a all reoli Napoli  
Cystal â hwn sy'n cysgu; ac arglwyddi  
A all barablu mor llawn a dibwys  
Â Gonzalo yma; fe allwn i hyfforddi  
Brân cyn ddyfned ei sgwrs. O pe na baet  
Yn meddwl 'run fath â mi! O dyma gwsg  
Am dy ddyrchafiad! A wyt ti'n fy nilyn?

Yr unig beth sy'n achub Sebastian fel cymeriad yw nad yw, yn y diwedd, yn dilyn y  
ddadl farwol hon.

Mae dod i'r Steddfod fel gweld portread bach o'ch gorffennol. Y tro diwethaf y  
gwelais i Seiriol Thomas, sy'n chwarae rhan Gonzalo, hen gynghorydd gonest,  
roedden ni'n dau yn actio yn nrama'r Pasiwn. Fe oedd Crist ac rown i'n un o Ferched  
Jeriwsalem. Rown i'n enwedig o falch fod gen i gysylltiad personol gyda Gonzalo, gan  
mai fe yw fy hoff gymeriad yn y *Tempest*. Rhan o'r rheswm am hyn yw mai fe yw  
calon moesol y ddrama. Math o drasiedi golau yw'r *Tempest*, a dydw i ddim yn siwr  
bod Prospero fawr doethach ar ddiwedd y profiad. Byddai cynulleidfaoedd Oes Iago  
wedi deall hyn yn iawn, oherwydd mae ei araith fawr yn taeru ei fod yn rhoi'r gorau  
i'w grefft o swyno – ac, fel mae Llion Williams yn gwybod, mae'n gwneud ffys mawr  
am y peth – yn aralleiriad o araith gan Fedea – y wrach o chwedloniaeth Groeg a  
lofruddiodd cariad ei gwr a'i phlant ei hun, yng nghyfieithiad Golding o'r  
*Metamorphoses* Ofydd. Cyfieithiad, noder, sy'n rhoi cliw moesol mwyaf y ddrama.

Ond yn ôl at Gonzalo. Mae e'n fodlon dweud y gwir wrth ei frenin, hyd yn oed pan fo'r uchelwyr eraill yn ei watwar. Pedant yw Gonzalo. Pan fo'r ddau arall yn gwneud hwyl am ei gyfeiriad at "y weddw Dido" o Diwnis, mae'n nhw'n mynnu mai yn Ngharthago oedd Dido. Meddai Gonzalo, fel cyfieithydd gofalus: "Syr, Tiwnis oedd Carthago". Mae hwn yn fy atgoffa i am stori am y bardd Almaenaidd Rainer Maria Rilke ar ei wely angau. Daeth nyrs ato a chamynganu ei enw. Er ei fod yn marw o cancr y llwnc, fe gywirodd hi. Dyna lle mae gwaith bardd a chyfieithydd o'r werth mwyaf: yn y manylion ac mae galwedigaeth y ddwy grefft yn ymdrech hir i fod yn fannwl gywir. Mae rhithiau Ariel yn gyrru'r lleill yn wallgo ond mae e'n parhau yn ei lawn bwyll. Pan fo Ariel yn ei ddihuno eiliad cyn i Antonio a Sebastian ei lofruddio fe a Brenin Napoli mae'n dweud:

Ar fy llw, syr, fe glywais furmur

A hwnnw'n un rhyfedd hefyd, ac fe'm deffrodd.

Mae Gonzalo'n cyfeirio at siarad y drwgweithredwyr ac hefyd at eiriau Ariel. Mae fel pe bai Gonzalo, wrth iddo gysgu, yn clywed y murmur sydd y tu ôl i symudiad barddoniaeth Shakespeare. Dyma yw llygad y ffynnon farddonol. Fy ngobaith i wrth gyfieithu'r *Tempest* oedd fy mod wedi gallu cyfleu'r un murmur a glywodd Gonzalo gonest i'r gynulleidfa Gymraeg.

Mae un cymeriad sy'n wrthwyebus i hud a lledrith Prospero o'r cychwyn, sef Caliban. Ef oedd unig frodor yr ynys pan laniodd Prospero a Miranda. Mae ysgolheictod diweddar yn awgrymu mai un o themáu gwleidyddol y *Tempest* oedd ymgyrch y Saeson i ddofi'r Iwerddon fel trefedigaeth, heb sôn am yr anturiaethau yn yr Amerig. Roedd y Gymraeg yn amlwg ar lwyfan proffesiynol Oes Elisabeth ac iago, gyda siaradwyr Cymraeg ymhlith actorion cwmni Shakespeare. Dyma sut gallai nodi fod merch Owain Glyndwr yn canu yn Gymraeg, heb fanylu am yr union gân – roedd yn ymddiried hynny i'r actor. Cymraes oedd Alys Griffin, mam tad Shakespeare ac mae cymeriadau Cymraeg eu hiaith a'u tras – gan gynnwys y brenin Tuduraidd ei hun – yn rhan bwysig o'r ddrama *Henry V*. Mae Caliban wedi gorfod dioddef colli ei hunan-



reolaeth a chyfoeth ei ynys ac yn llafurio fel caethwas i Prospero a Miranda, yn cario tanwydd ac yn coginio iddyn nhw. Miranda, nid Prospero, ddysgodd iddo siarad Saesneg ac mae ymateb Caliban yn enwog:

You taught me language, and my profit on't  
Is I know how to curse. The red plague rid you  
For learning me your language.

Yn Gymraeg:

Fe ddysgaist i mi iaith; a'r fantais yw y gwn  
Sut i felltithio. Cipied y pla coch di  
Am ddysgu imi'th iaith.

Mae rhywbeth diddorol iawn wedi dechrau digwydd wrth i mi gyfieithu, sef bod iambs y Saesneg – “You taught me language, and my profit on't...” – wedi troi i'r gwrthwyneb yn y Gymraeg, sef, trochees. Mae “Fe ddysgaist i mi iaith a'r fantais yw y gwn” yn rheolaidd iambic, er bod chwe curiad yn hytrach na pump, ond clywch: “Sut i felltithio. Cipied y pla coch di.” Tybed a yw, Caliban, y brodor, yn siarad mewn mesur sy'n gweddu'r Gymraeg yn well na'r Saesneg? A oedd Shakespeare yn reddfodol yn rhoi rhythm gwrth-iambic i'r person sy'n fwy o fygythiad i Prospero na neb? Ac ai rhythm Cymraeg oedd hynny?

Rwy am grwydro oddi ar y llwybr am eiliad i sôn am Galiban fel dysgwr. Gan gofio hyn, fe arbrofais i gyda'r syniad o Galiban fel siaradwr Cymraeg fel ail iaith. Wyddwn ni ddim pa iaith a siaradai gyda Sycorax ei fam (Arabeg efallai?). Felly, dyma Caliban yn dadlau gyda Prospero:

CALIBAN

Fi wrth fy swper nawr.  
Ynys fi yw hon, trwy fy Mam Sycorax,  
Ti dygaist oddi wrth fi. Yn y dechreuad  
Rhoi i mi fwythau wnest, bwydo fi

A sudd ffrwythau; dysgu fi i enwi'r  
Golau mwy a sut y golau llai  
Sy'n llosgi ddydd a nos: pryd hyn ti caru fi,  
Dangosaist i ti holl nodweddion da  
Yr ynys: ffynons, pyllau hallt,  
Y llefydd diffaith a'r llefydd ffrwythlon.  
Melltith arna i am wneud fath peth.  
Disgynned holl swynau Sycorax, llyffantod  
Ar eich pen, fi yw eich unig ddeiliad, a fu  
Yn frenin arna i fy hun.

Diddorol nodi eto pa mor aml mae'r acen yn dod cyn y sillaf ddi-acen yn y cyfieithiad. Yn y diwedd, fe wrthodon ni'r syniad hwn gan fod Shakespeare barddoniaeth godidog yng ngenau Caliban, sydd yn dangos pa mor ddisglair yw'r cymeriad. Doeddwn i ddim am lastwreiddio'i urddas, gan fod Shakespeare yn defnyddio iaith aruchel barddoniaeth i awgrymu statws moesol ei gymeriadau. Dyw Caliban, er gwaethaf ei ing, byth yn siarad rhyddiaeth, fel y clowniaid, gydag un eithriad – pan fo'n feddw gaib. A phwy ohonon ni sy'n siarad synnwyr pan fo'n feddw?

Ond yn ôl at wrthryfel Caliban yn erbyn Prospero. Mewn darn enwog arall o'r ddrama, mae Caliban yn disgrifio'r gerddoriaeth y mae ysbrydion yr ynys yn ei gynhyrchu. Drama ar gyfer theatre dan-do y Blackfriars oedd y *Tempest*, felly mae iddi 'sound-track'. Yn wir, mae Shakespeare yn gwthio ei iaith theatrig tuag at y fideo pop ac MTV – arwydd arall o'i ddawn. Mae'r clowniaid yn ofni wrth glywed y gerddoriaeth a dyma Caliban yn eu cysuro. Rwy am ofyn i Kai adrodd y darnau yn y ddwy iaith, a ceisiwch chi wrando am ba mor aml mae Caliban yn defnyddio trochees, *tum*-ti yn asgwrn cefn ei linellau. Ond, wrth i'r gerddoriaeth afael yn ei gorff, mae'r rhythm iambic – llofnod Shakespeare am gymeriad yn dweud y gwir mewn modd rhesymol a phrydferth – yn dychwelyd:

CALIBAN

Be not afeard. The isle is full of noises,  
Sounds and sweet airs that give delight and hurt not.  
Sometimes a thousand twangling instruments  
Will hum about mine ears; and sometimes voices,

That if I then had waked after long sleep,  
Will make me sleep again; and then in dreaming,  
The clouds, methought, would open and show riches  
Ready to drop upon me, that when I waked  
I cried to dream again.

Rwy am ofyn i Kai adrodd yr araith yn Gymraeg nawr.

CALIBAN

Peidiwch ofni. Mae'r ynys yn llawn o sŵn,  
Twrw, alawon sy'n llonni heb niweidio.  
Weithiau bydd mil o offerynnau'n tiwnio,  
Mwmian o gylch fy mhen; ac, weithiau lleisiau,  
Ac os dihunais ar ôl cysgu'n hir,  
Gwnânt i mi gysgu eto; breuddwydiais weld  
Cymylau'n agor i ddangos trysorau'n barod  
I ddisgyn arnaf, ac wrth ddihuno, llefais  
Am gael breuddwydio eto.

Er nad yw'r rhythm yn cyfateb air wrth air, roedd plot y mydr, sef y symudiad o'r *tum-ti's* gwrthryfelgar i'r *ti tums* sy'n gyweirnod rhinwedd yng ngwaith Shakespeare. Mae cyfieithu iaith Caliban wedi dangos bod rhythm estron yn rhedeg o dan iaith Seisnig Shakespeare, fel afon mewn cefnfôr. Rhywle yn ei isymwybod, roedd rhythm y Gymraeg a glywodd gain ei nain, Alys Griffith, wedi dod yn rhan o ddychymyg Shakespeare.

Yn ei olygfa gyntaf gyda'r clowniaid, mae Caliban yn dweud: "I do not lie". Fe dreies i gyfieithu hyn fel "Dwy ddim yn celwydda" ond yn y diwedd fe es i am "Rwy'n dweud y gwir." Mae'r cyntaf yn fwy cywir ond mae'r ail yn fwy tebyg i Galiban. Ac, yn wir, mae Caliban yn dweud y gwir trwy gydol y ddrama. Er ei fod yn dioddef o dan Prospero, nid yw ei hud yn ei dwyllo felly mae'n arwr o fath.

Cyn cloi mae gen i un pwynt arall. Rhan o fawredd y *Tempest* yw bod Shakespeare yn rhoi mynegiant i wahanol agweddau o iaith. Mae'n dangos i ni sut y mae iaith yn ein twyllo, ein hudo a'n bradychu. Yn yr agwedd hon, rôl Ariel y dangos miwsig iaith yn ymestyn drwy'r corff tuag at ystyr. Mae'r ysbryd yn disgrifio effaith ei hud ar y clowniaid meddw. Rwy am ofyn Meilyr i ddarllen y darn yn Saesneg ac wedyn yn Gymraeg.

ARIEL

I told you, sir, they were red-hot with drinking,  
So full of valour that they smote the air  
For breathing in their faces, beat the ground  
For kissing of their feet, yet always bending  
Towards their project. Then I beat my tabor,  
At which like unbacked colts they pricked their ears,  
Advanced their eyelids, lifted up their noses  
As they smelt music; so I charmed their ears  
That calf-like they my lowing followed, through  
Toothed briars, sharp furzes pricking gorse and thorns,  
Which entered their frail shins. At last I left them  
'th' filthy-mantled pool beyond your cell,  
There dancing up to th' chins, that the foul lake  
O'erstunk their feet.

ARIEL

Dywedais wrthyt, syr, eu bod  
Yn stemio, cyn ddewred eu bod yn curo'r aer  
Am anadlu yn eu hwyneb, yn taro'r llawr  
Am gusanu'u traed ond yn parhau i droi  
Tuag at eu pwrpas. Curais fy nhabwrdd ac  
Fel merlod heb eu dofi, dyna foeli  
Clust a chodi amrant, dyrchafu ffroen  
Wrth iddynt sawru cerddoriaeth; felly swynais  
Eu clyw. Fel lloi yn dilyn breffu, daethant  
Tu ôl i mi ar hyd mieri pigog,  
Eithin llym a drain mor finiog nes  
Treiddio eu fferau tyner. Yn y diwedd

Gadewais nhw yn llwydni llysnafeddog  
Y pwll tu draw i'ch cell, yn dawnsio yno  
Hyd eu genau, a'r llyn yn drewi'n waeth  
Na'u traed.

Dyma ddisgrifiad trawiadol iawn o'r perlewyg gall barddoniaeth ei hun ei greu. Mae'r dynion fel anifeiliad yn gwynto cerddoriaeth, profiad o synaesthesia. Cerddoriaeth Ariel yw'r curiad y tu ôl i'r ddrama i gyd, yr ysbryd sy'n gwybod y gall gwth bach o anadl dorri cefn rheswm dyn. Gwaith y bardd a'r cyfieithydd yw gwranddo am dabwrdd Ariel a, thwy hynny, dosturio mwy at y cyflwr dynol na all Prospero y dewin wneud erioed.

Gwyneth Lewis